ADFENT 1

ESEIA 2:1-5; SALM 122;
RHUFEINIAID 13:11-14; MATHEW 24:36-44

● **Gweddi agoriadol**
Roeddwn wrth fy modd gyda'r rhai oedd yn dweud,
'Awn i dŷ yr Arglwydd.'

Dad, Mab ac Ysbryd, bydd gyda ni yn ein hundod,
ein cyfarfod a'n cyfarch,
ein haddoli a'n cymdeithas,
ein bod a'n gwneud,
ein hymestyn amdanat.

Roeddwn wrth fy modd gyda'r rhai oedd yn dweud,
'Awn i dŷ yr Arglwydd.'

● **Moliant**
Dduw gobaith a dirgelwch,
edrych ymlaen,
paratoi,
disgwyliwn am deyrnas
yn y byd hwn a'r nesa,
ac am frenin
yn ymddangos pan na fyddwn yn ei ddisgwyl.
Nef yn cyffwrdd daear.
Mae troed y duwdod
yn cerdded hewlydd llychlyd
fel y gwnaethant unwaith yn Eden,
a phobl,

sy'n chwilio am waredwr,
yn cerdded yn syth heibio'r stabl.
Agor ein llygaid a'n calonnau
er mwyn i hwn
fod yn Adfent gobaith i'r byd,
ble mae'r rhai sy'n ceisio
yn canfod
y baban-Grist
a aned ar eu cyfer.

● **Cyffes**

Maddau i'th bobl
sy'n cysgu
pan fo angen dangos
cysur
neu heddwch,
sy'n oedi
pan fo angen gwybod
ar frys
am dy gariad a'th ras.
Maddau i'r rheini ohonom
sydd wedi blino
ar deithio,
wedi ein temtio
i fynd ein ffordd ein hunain.
Maddau, ac adfer
ffydd a gobaith
er mwyn i'n bywydau,
drwy dy ras,
gyhoeddi'r newydd da
y canwn amdano.

● **Diolch**

Yn yr Adfent hwn o ddisgwyl
tyn ni ynghyd mewn undeb,
er mwyn i'n moli a'n diolch
atseinio o'r muriau hyn
ac wedyn drwy ein bywyd.

Arweinydd : Dduw yr Adfent
Pawb : Tyrd yn agos yw'n gweddi.

Yn yr Adfent hwn o ddisgwyl
tyn ni ynghyd mewn cenhadaeth.
Boed i'r diolch sy yn ein calon
fod y gân a ganwn
ac yn felodi ein bywyd.

Arweinydd : Dduw yr Adfent
Pawb : Tyrd yn agos yw'n gweddi.

Yn yr Adfent hwn o ddisgwyl
tyn ni ynghyd mewn gwasanaeth
er mwyn i'r llwybr a ddilynwn
ein harwain o'r stabl
at gip o'r tragwyddol.

Arweinydd : Dduw'r Adfent
Pawb : Tyrd yn agos yw'n gweddi.